**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 25 MEDI 2024 TRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd), Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd) Dianne Bevan, Frank Cuthbert a Ginger Wiegand.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Swyddog Arolygon; Rheolwr Arolygon; Swyddog Cymorth Tîm a Swyddog Cymorth Tîm.

**Gwestai:** Bethan Williams Price (Sylwedydd)

**Ymddiheuriadau:** Rheolwr Cyllid; Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**Amser dechrau: 10:00**
**Amser gorffen: 11:28**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

**2.1.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod y disgwylir i'r Bwrdd Gweithredu Pontio gyfarfod ddydd Iau ac na chafwyd unrhyw ddiweddariadau pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch hyn.

**2.2.** Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd fod y Comisiwn wedi cynnal proses recriwtio lwyddiannus a bod dau ymgeisydd wedi cael gwybod yn anffurfiol am eu cyfweliadau llwyddiannus. Croesawodd y Cadeirydd Bethan Williams Price, sef un o'r ymgeiswyr llwyddiannus, i'r cyfarfod fel sylwedydd a chadarnhaodd y bydd Bethau yn dechrau ei chyfnod yn swyddogol ym mis Hydref. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd yr ail ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â'r Comisiwn ym mis Rhagfyr ac yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**2.3.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r bwrdd ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi mynychu cyfarfod diweddar Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC). Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol a threuliwyd amser yn edrych ar yr hyn a ddysgwyd o'r Etholiad Cyffredinol diwethaf, a fydd yn cael ei grynhoi mewn dogfen er mwyn i helpu i lywio'r paratoadau ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2026. Rhoddodd y Cadeirydd wybod y bydd y Prif Weithredwr yn sôn am ei chyd-gyflwyniad yn y cyfarfod â Chadeirydd BCEC yn nes ymlaen.

2.4. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer rhaglen sefydlu fwy ffurfiol ar gyfer y ddau Gomisiynydd newydd, a chadarnhaodd fod gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r Rheolwr Cyllid i gwblhau'r rhaglen sefydlu ddrafft o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar gynhaliwyd ar 28 Awst 2024**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Awst 2024 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

**4. Materion yn Codi**

4.1. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd cyfredol ar y materion canlynol:

4.2. **(Mater 1) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 21 Awst 2024 a 18 Medi 2024. Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol ynghylch cynrychiolaethau a geir yn ystod Arolwg y Senedd a'r cwmpas ar gyfer trafodaeth â LlC ynghylch addysg gyhoeddus ar arolygon yn y dyfodol.

4.3. **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar gyfer Ceredigion, Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

4.4. **(Mater 3) Nodwyd** bod y brydles wedi dod i law a bod y symud ffisegol i adeilad newydd Llywodraeth Cymru wedi dechrau. Rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â diwygiadau i'r brydles, y gellir ei llofnodi ar ôl cael cadarnhad. Mae adran diogelwch Llywodraeth Cymru yn paratoi cardiau ar gyfer staff y Comisiwn ar hyn o bryd. Bydd y symud i CP2 yn digwydd cyn i'r brydles ddod i ben yn yr adeilad presennol. Bydd holl gyfarfodydd y Comisiwn yn parhau i gael eu cynnal ar-lein hyd nes y clywir yn wahanol.

4.5. **(Mater 4) Nodwyd** na fu ymateb na gweithgarwch dilynol o ran y cwyn yn ymwneud ag arolwg Bro Morgannwg a'i bod bellach wedi'i chau.

4.6. **Nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cysylltu â'r Comisiwn, gan ei fod yn bwriadu agor ymchwiliad i rôl y 'Pennaeth Iechyd Democrataidd' ar ôl cael cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad yw'r rôl yn un 'Cymraeg yn hanfodol'. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn yn ymateb yn briodol.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** Nid oedd diweddariad ar y Rhaglen Bontio gan nad yw'r cyfarfod tan ddydd Iau.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 18 Medi 2024 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** **Nodwyd** bod yr ymarfer recriwtio Comisiynwyr wedi dod i ben ac y bydd y Comisiynydd 1af yn dechrau ei chyfnod ar 1 Hydref 2024 a'r 2il Gomisiynydd (a fydd hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol) yn dechrau ar 1 Rhagfyr 2024.

**6.3.** **Nodwyd** bod yr ymarfer recriwtio ar gyfer Pennaeth Iechyd Democrataidd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a'i fod wedi'i hysbysebu ar wefannau Swyddi'r Gwasanaeth Sifil ac AEA. Bydd yr hysbyseb ar gyfer y rôl yn dod i ben am 11:59 heno.

**6.4.** **Nodwyd** bod Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 9 Medi 2024. Mae'r Prif Weithredwr mewn cysylltiad ag Elena o LlC ynghylch y dyddiad dechrau. **Nodwyd** mai'r enw ar bwyllgor archwilio'r Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd fydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLA) ac y bydd yn dechrau ar ei waith ym mis Ionawr. Cynhelir ymarfer recriwtio ar gyfer Cadeirydd annibynnol newydd y pwyllgor hwn.

**6.5.** **Nodwyd** bod Cadeirydd BCEC a Phrif Weithredwr y Comisiwn wedi rhoi cyd-gyflwyniad yng nghyfarfod diweddar BCEC ar y camau nesaf o ran sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. **Nodwyd** bod y cyflwyniad wedi cael croeso da a chadarnhaodd Cadeirydd BCEC na chafwyd unrhyw adborth negyddol ynghylch trefn arfaethedig y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Cafwyd trafodaeth ynghylch trawsnewid i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 25 Medi 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a oedd yn dangos sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Awst 2024.

**7.2.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am gadarnhad o beth fydd y dyfarniad cyflog o hyd. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cyllidebu ar gyfer dyfarniad o 3.7% yn unig, ond y dylai allu talu am ddyfarniad cyflog posibl o 5% oherwydd tanwariant rhagamcanol ar Arolwg y Senedd ac na ddylai fod angen yr 1.3% ychwanegol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

**7.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am y costau symud swyddfa terfynol o hyd, ond y dylid cwblhau'r symud swyddfa o fewn y gyllideb.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CDFfC dyddiedig 25 Medi 2024.

**8.2.** Roedd y Comisiwn o’r farn nad oedd angen unrhyw newidiadau i’r gofrestr risg gan ei bod yn adlewyrchu’r sefyllfa gyfredol. **Nodwyd** a **chytunwyd** ar y Gofrestr Risg gan y Comisiwn.

## 9. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC dyddiedig 25 Medi 2024.

**9.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o symud eitemau o Gofrestr Risg y Flaenraglen Waith i’r Gofrestr Risg wirioneddol.

**9.3.** Cafwyd trafodaeth ynghylch Cofrestr Risg y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

**9.4.** **Nodwyd** a **chytunwyd** ar Gofrestr Risg y Flaenraglen Waith gan y Comisiwn.

**9.5.** **Gweithredu:** Prif Weithredwr i gysylltu â Chadeirydd y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i drafod Cofrestr Risg y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

## 10. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 18 Medi 2024. **Nodwyd** bod y comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol yng Ngheredigion, Abertawe a Sir Benfro ar hyn o bryd.

**10.2.** **Nodwyd** bod Sir Gaerfyrddin wedi cyflwyno ei dogfennau ar gyfer yr Arolwg Cymunedol ac y bydd y Comisiwn yn gwneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf ynghylch p’un a yw’n derbyn y cynigion hynny ai peidio, gyda’r broses gwneud Gorchmynion i ddilyn wedi hynny.

**10.3.** **Nodwyd** bod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ar gyfer Arolwg y Senedd yn cau ddydd Llun 30 Hydref. Ystyriwyd nifer, ansawdd a chynnwys y cynrychiolaethau a gyflwynwyd hyd yn hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. **Nodwyd** bod y Papur Opsiynau ar gyfer yr ail gyfnod ymgynghori yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac y cynhelir cyfarfod o’r Ysgrifenyddiaeth ar 15 Hydref i drafod yr opsiynau diwygiedig. Caiff yr opsiynau diwygiedig hyn eu cyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref, gyda’r nod o gyhoeddi’r cynigion diwygiedig ym mis Rhagfyr.

**10.4.** Cafwyd trafodaeth am ddiwygiadau posibl i Opsiynau’r Senedd.

**10.5.** **Nodwyd** y bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynigion Drafft Sir Benfro yn dod i ben ar 2 Medi 2024.

**10.6.** **Nodwyd** y bydd Adroddiad Argymhellion Terfynol Ceredigion yn cael ei gyhoeddi fis nesaf. Cafwyd trafodaeth am ddyddiad ar gyfer Briffio Arweinwyr Ceredigion.

**11. Arolwg Cymunedol Sir Benfro – Adroddiad Terfynol**

**11.1.** Ystyriwyd papur Arolwg Cymunedol Sir Benfro – Opsiynau Terfynol dyddiedig 18 Medi gan y Swyddog Arolygon. Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth am ei gwaith ar yr Arolwg.

**11.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch y Polisi Maint Cynghorau a'r cyfyngiadau y mae hyn wedi'u rhoi ar y broses arolygon. **Nodwyd** y gwaith gwerthfawr ac effeithiol a wnaed i ddiwygio'r anghysondebau i'r ffiniau yn yr Arolwg hwn.

**11.3.** Cafwyd trafodaeth ynghylch yr hyn a ddysgwyd o'r broses arolygu ar gyfer Arolwg Cymunedol Sir Benfro.

**11.4.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanhuadain, Clunderwen a Gorllewin Llandysilio. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.5.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llangwm, Freystrop, Hook a Phont Fadlen. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.6.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Rosemarket a Burton. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 1** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.7.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Hwlffordd, Johnston, Yr Aberoedd, Tiers Cross, Herbrandston a Tiers Cross. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.8.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Camros a Nolton a'r Garn. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.9.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Aberdaugleddau, Neyland a Stadwell. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.10.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Rudbaxton a Spittal. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.11.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Marloes a Sain Ffraid, Dale a Llanisan-yn-Rhos. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.12.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Maenclochog a'r Mot. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.13.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Cas-wis, Martletwy, ac Uzmaston, Boulston a Slebets. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.14.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Maenorbŷr a Phenalun. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 3** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.15.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Doc Penfro. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.16.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Cas-mael, Treletert, Cwm Gwaun, Scleddau, ac Abergwaun ac Wdig. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 3** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.17.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Angle, Hundleton, Cosheston, Penfro ac Ystagbwll a Chastellmartin. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 6** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.18.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol St Florence, East Williamston, Caeriw a Jeffreyston. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 3** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.19.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Tyddewi a Solfach. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 3** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.20.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Arberth, Llanbedr Felffre, Llanddewi Felffre, a Thredemel. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.21.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Amroth, Cilgeti/Begeli, Saundersfoot, Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 4** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.22.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Dinas a Threfdraeth. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 3** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.23.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Boncath, Maenordeifi, Cilgerran, Crymych, Clydau, Eglwyswrw, a Nanhyfer. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 6a** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.24.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Cas-lai a Chas-blaidd. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 2** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.25.** Ystyriwyd yr opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Pen-caer a Mathri. Dewisodd y Comisiwn **Opsiwn 3** o'r Papur Opsiynau Terfynol (cyfeiriwch at dempledi'r Safon Penderfynu am ragor o wybodaeth).

**11.26.** **Gweithredu:** Y gwersi a ddysgwyd o Arolwg Cymuned Sir Benfro i'w hychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet.

## 12. Arolwg y Senedd – Adroddiad Cynigion Diwygiedig Drafft

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Cynigion Diwygiedig Drafft Arolwg y Senedd dyddiedig 10 Medi 2024 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**12.2.** **Cytunodd** y Comisiwn ar gynnwys drafft a strwythur bras Adroddiad Cynigion Diwygiedig Drafft Arolwg y Senedd, mewn egwyddor. **Nodwyd** y caiff fersiwn derfynol yr Adroddiad a'r penderfyniadau terfynol eu cyflwyno i'r Comisiwn yn y cyfarfod ym mis Hydref.

**13. Arolwg y Senedd – Diweddariad ar y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Arolwg y Senedd: Diweddariad ar y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol dyddiedig 18 Medi 2024 gan y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**13.2.** Ystyriwyd nifer yr ymatebion y mae'r Comisiwn wedi'u cael hyd yn hyn yn ystod Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol y Senedd. **Nodwyd** bod cyfyngiadau hysbysebu gwleidyddol ar y cwmni hysbysebu yn golygu nad oedd y Comisiwn yn gallu hysbysebu ar Instagram a Facebook. Hysbysebwyd ar Google yn lle hynny. **Nodwyd** bod hysbyseb wedi'i roi ar fysiau yn llwyddiannus, hefyd. **Nodwyd** bod 140,000 o gyfrifon wedi edrych ar bostiad y Comisiwn ar X ar y diwrnod cyhoeddi. **Nodwyd** bod Arolwg y Senedd wedi cael sylw eang mewn papurau newydd ledled Cymru

**13.3.** Cafwyd trafodaeth ynghylch addysgu'r cyhoedd yn ymwneud â gwaith y Comisiwn a'r posibilrwydd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ymgymryd â'r gwaith hwn yn y dyfodol.

**14. Calendr Digwyddiadau**

**14.1.** Ystyriwyd y Calendr Digwyddiadau.

**14.2.** **Nodwyd** y bydd cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ar-lein tra bod y Comisiwn yn paratoi i symud adeilad i CP2.

**15. Unrhyw fater perthnasol arall**

**15.1** Ni nodwyd unrhyw fater perthnasol arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 30 Hydref 2024